**Trosolwg o Addysg Oedolion Cymru**

Addysg Oedolion Cymru (AOC) yw'r sefydliad Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) cenedlaethol ar gyfer Cymru, sy'n cynnig cwricwlwm cynhwysfawr ac yn pontio dysgu ar Lefel Cyn Mynediad i gymwysterau Lefel Pedwar. Mae ein rhaglenni yn ymdrin gyda sgiliau hanfodol mewn llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol a Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), yn ogystal â chymwysterau uwch mewn meysydd fel Astudiaethau Undebau Llafur, Gwaith Ieuenctid, Addysg a Hyfforddiant a Chwnsela. Yn ogystal, darparwn ystod eang o gyrsiau sy'n arfogi dysgwyr gyda sgiliau ymarferol mewn iechyd a diogelwch, gwaith llaw, crefftwaith, lles, sy'n berthnasol yn uniongyrchol i leoliadau personol a phroffesiynol. Trwy gydweithio gyda'r sector gwirfoddol, diwydiant a chyflogwyr, rydym yn helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau ar gyfer bywyd a chyflogadwyedd, gan greu llwybrau at gyflogaeth, twf personol ac ymgysylltiad gyda'u cymuned. I lawer o oedolion, mae AOC yn gam cyntaf cynhwysol a hyblyg yn ôl i ddysgu strwythuredig, gan gynnig cymorth hanfodol i oresgyn rhwystrau fel arwahanrwydd cymdeithasol, heriau iechyd meddwl a diweithdra.

Fel sefydliad aelodaeth, rydym yn meithrin yr ymdeimlad o berthyn a rhannu pwrpas, gan alluogi dysgwyr, tiwtoriaid a phartneriaid i lunio dyfodol dysgu gydol oes ar y cyd yng Nghymru. Yn ogystal â bod yn Sefydliad Addysg Bellach Dynodedig, mae AOC hefyd yn sefydliad aelodaeth sydd wedi ymrwymo i feithrin ymdeimlad cyffredin o bwrpas a pherthyn, gan alluogi dysgwyr, tiwtoriaid a phartneriaid i gydweithio i lunio dyfodol dysgu gydol oes yng Nghymru. Mae ein hymrwymiad i brofiadau dysgu o ansawdd uchel, sy'n hygyrch ac ystyrlon yn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael gydag anghenion amrywiol oedolion sy'n dysgu ledled Cymru. Rydym yn meithrin diwylliant o berthyn, tegwch a chynwysoldeb, gan alluogi llwyddiant a chyflawniad drwy greu amgylchedd diogel a chroesawgar i bawb. Trwy weithio'n agos gyda sefydliadau cymunedol, undebau llafur a chyflogwyr, grymuswn ein dysgwyr i ddatblygu sgiliau ymarferol sy'n canolbwyntio ar yrfau a chymwysterau cydnabyddedig ar bob lefel. Mae ein cyrsiau sy'n cael eu haddysgu gan ein tiwtoriaid medrus, ynghyd â chymorth dysgu ychwanegol, nid yn unig yn cefnogi cyflogadwyedd ond hefyd yn annog arloesedd, creadigrwydd, sgiliau crefft, lles, gan alluogi dysgwyr i wneud cynnydd mewn ffyrdd personol a phroffesiynol, yn unol â'u hamgylchiadau ac anghenion.

www.addysgoedolion.cymru

